***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 4002

## Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

**Aelodaeth fforwm**

**7.** Wrth ystyried pa bersonau i'w penodi yn aelodau o'r fforwm, rhaid i awdurdod penodi:

(a) ymgynghori ag unrhyw unigolion a chyrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm y gwêl yn dda;

(b) rhoi hysbyseb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y fro y mae'r fforwm ynddi yn rhoi cyfle i bersonau fynegi diddordeb mewn dod yn aelod o fforwm;

(c) gwahodd unrhyw gyrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm i enwebu person i'w ystyried gan yr awdurdod penodi ar gyfer aelodaeth o'r fforwm;

(ch) cymryd i ystyriaeth ei bod yn ddymunol penodi personau sy'n byw yn ardal y fforwm, neu sydd fel arall yn gyfarwydd iawn â hi, neu y mae ganddynt fuddiannau eraill sy'n berthnasol iddi;

(d) sicrhau bod aelodaeth y fforwm yn llwyddo i gael cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy lleol neu'r hawliau mynediad a roddir gan adran 2(1) o'r Ddeddf a pherchenogion a meddiannwyr tir mynediad neu dir y mae hawliau tramwy lleol drosto yn bodoli;

(dd) rhoi sylw i'r angen i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gydbwysedd teg rhwng personau o genderau, hiliau, oedrannau, anableddau a nodweddion eraill gwahanol.